

Keith Rutherford
Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Canolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Keith Rutherford,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- nodi ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydweithredol o hybu gwelliant sy'n seiliedig ar gryfderau.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- arolygiad o wasanaethau oedolion hŷn, Hydref 2019
- arolygiad plant anabl, Chwefror 2020
- gweithgareddau â ffocws – gwasanaethau oedolion, Ebrill 2019
- gweithgareddau â ffocws – gwasanaethau plant, Medi 2019
- cyfarfodydd adolygu perfformiad ac ymarfer, Medi a Thachwedd 2019
- cyfarfod adolygu perfformiad, Mawrth 2020
- adolygiad sicrwydd ac asesiadau risg Swyddfa Archwilio Cymru, Chwefror 2020

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi wrth i'r holl weithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rennir â chi yn gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn parhau i weithio o dan egwyddorion Deddf 2014 gan sicrhau bod egwyddorion asesiadau sy'n seiliedig ar gryfderau, cymryd risgiau cadarnhaol a sgysiau am yr hyn sy'n bwysig yn sail i ymarfer. Mae'r gwaith parhaus o ddatblygu strwythurau i graffu ar berfformiad ar lefelau gwahanol ym maes gwasanaethau oedolion a phlant yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o berfformiad i'r uwch-dîm rheoli. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio mewn ffordd ragweithiol i lywio gwelliannau pellach i'r gwasanaethau, ynghyd â dysgu gwersi o'r awdurdodau lleol cyfagos yng Ngwent ac awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Gwelsom ymarfer a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau'n cyflawni'r canlyniadau yr oedd y bobl yn eu dymuno, ac roedd hyn yn dangos newid sylweddol yn y diwylliant mewn perthynas â'r ymarfer, a'r gwaith o gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau

Mae timau gwasanaethau oedolion sy'n seiliedig ar ardal wedi cael eu datblygu. Mae'r timau'n mynd ati'n weithredol i geisio deall yr hyn sy'n bwysig i bobl er mwyn nodi canlyniadau personol a helpu pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Yn ystod arolygiad thematig pobl hŷn AGC, gwelsom dystiolaeth bod yr awdurdod lleol hefyd wedi mynd ati i atgyfnerthu ei gydberthnasau â gweithwyr proffesiynol a chymunedau lleol eraill er mwyn cyflawni ei agenda ataliol.

Mae'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau plant yn parhau gyda'r 'Strategaeth Galw ac Ymyrryd yn Gynnar' yn ymgorffori dull gweithredu ataliol wedi'i hwyluso drwy recriwtio rheolwr i arwain y gwaith hwn. Mae'r awdurdod lleol yn deall na fydd newid yn digwydd dros nos, ond mae'r gwaith o osod sylfeini wedi dechrau drwy gyfuno ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau â'r ddarpariaeth statudol er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth y mae angen cymorth arnynt, yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Gwelsom y ffordd yr oedd y gwaith o ddatblygu'r 'drws ffyrnt' i Ganolfan Diogelu a Chymorth Amlasiantaeth (MASSH) wedi dechrau newid ymarfer gyda'r lefel gywir o gymorth yn cael ei rhoi i blant a theuluoedd.

Drwy gydol 2018-2019, mae'r awdurdod lleol wedi parhau i reoli'r heriau sy'n gysylltiedig â'i boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal fel rhan o'r rhaglen ar gyfer trawsnewid gwasanaethau plant ac mae'r gwaith o adolygu a datblygu'r 'Trothwy Angen' yn mynd rhagddo. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu model ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau/rheoli risg.

Er gwaethaf y gwaith sy'n mynd rhagddo rhwng yr awdurdod lleol a'r Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru i nodi lleoliadau sy'n gallu diwallu anghenion cymhleth plant a phobl ifanc, mae plant a phobl ifanc yn parhau i gael eu rhoi mewn lleoliadau heb eu cofrestru. Fodd bynnag, roedd hyn yn gyfyngedig i ddau leoliad penodol lle roedd cynlluniau ar waith i liniaru'r ffaith nad oedd y lleoliad wedi'i gofrestru a symud tuag at statws cofrestredig. Mae hwn yn faes y bydd angen i reolwyr ei oruchwyllo'n fanwl am fod angen i'r awdurdod ddeall a sicrhau ei hun bod pob llwybr yn cael ei ystyried er mwyn osgoi defnyddio lleoliadau heb eu cofrestru o'r fath. Mae angen systemau cynllunio wrth gefn gwell er mwyn ymateb yn gynnar i bwysau o ran lleoli plant a phobl ifanc yn gynnar a sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar leoliadau.

Roedd ein gweithgaredd â ffocws ym maes gwasanaethau plant yn ystyried y broses adolygu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Ar y cyfan, roedd y plant a'r teuluoedd yn gadarnhaol ynghylch cysondeb y Swyddogion Adolygu Annibynnol a gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu da rhwng y Swyddogion Adolygu Annibynnol a'r gweithwyr cymdeithasol/rheolwyr. Fodd bynnag, mae rhai meysydd i'w gwella yn cynnwys cadarnhau bod uwch-reolwyr yn cael sicrwydd eu bod yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am berfformiad mewn perthynas â'r broses adolygu. Nid oedd llais y plentyn bob amser yn amlwg yng nghofnod yr adolygiad ac mae hwn yn faes y mae angen ei wella. Dylai'r Swyddogion Adolygu Annibynnol hefyd sicrhau bod plant yn cael lleisio barn yn y broses adolygu.

Drwy'r arolygiad o wasanaethau oedolion, gwelsom sut roedd y gwaith a wnaed gan Gysylltwyr Cymunedol wedi dod yn rhan annatod o'r Tîm Adeiladu Cymunedau Cadarn ehangach. Mae hyn yn cynnig ymateb cyflymach i unigolion ac yn liniaru'r angen canfyddedig i ymweld â'r meddyg teulu ar gyfer ymyriadau nad ydynt yn ymyriadau clinigol neu i gael gafael ar wasanaethau statudol.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob aelod etholedig yn cael hyfforddiant ar ddiogelu a materion amddiffyn plant a pholisi corfforaethol yr awdurdod lleol ar ddiogelu. Bydd AGC yn monitro'r maes hwn dros y deuddeg mis nesaf.

Pobl

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ceisio adborth gan ddinasyddion ac yn ei ddefnyddio i lywio a gwella ei wasanaethau Ar lefel strategol, mae data o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, ar y cyd â'r data sydd ar gael o'r Adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol, yn llywio ffordd o feddwl yr awdurdod lleol a'i gyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Mae'r sgysiau a gafwyd â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ym maes gwasanaethau dydd oedolion wedi helpu i lywio a darparu gwasanaethau yn well i bobl sydd ag anableddau dysgu neu anableddau corfforol, gan ddarparu gweithgareddau dyddiol ac ymyriadau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau. Mae gwasanaeth plant wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal, er mwyn ceisio eu barn am ddatblygu a darparu gwasanaethau.

Un o'r heriau a wynebwyd gan y gwasanaethau oedolion yw'r ffaith bod cyn lleied o asesiadau gofalmwr wedi cael eu cynnal. Gwelsom fod angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo asesiadau gofalmwr ac roedd yr awdurdod lleol wedi cydnabod hyn yn ei hunanasesiad. Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried sut mae'n hyrwyddo asesiadau gofalmwr a chael system ar waith i gofnodi data y gellir eu dadansoddi a'u defnyddio i ddatblygu arfer yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn Neddf 2014.

Mae gwasanaethau eirioli wedi cael eu hatgyfnerthu drwy wasanaeth Mynediad at Eiriolaeth Gwent (GATA) a lansiwyd yn ddiweddar, ac mae gwaith yn cael ei wneud gan y tîm trawsnewid rhanbarthol a Phartneriaeth Eiriolaeth Golden Thread i sicrhau bod gwasanaethau eirioli effeithiol ar gael drwy'r rhanbarth

Drwy ei bresenoldeb yn y grŵp 'Mwy Na Geiriau', gall yr awdurdod lleol rannu gwersi i'w dysgu ac arfer gorau â chydweithwyr o awdurdodau lleol eraill a'r bwrdd iechyd lleol. Mae'n hyrwyddo cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau' ymhellach drwy feithrin dealltwriaeth o ofynion defnyddwyr y gwasanaeth, sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau gofal preswyl a nyrsio, o ran y Gymraeg a gwella'r gallu i'r staff gael hyfforddiant. Fel rhan o'r broses arolygu gwasanaethau oedolion, gwelsom fod asesiadau yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod ein gweithgaredd â ffocws, siaradodd y staff yn hyderus am ddefnyddio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd. Gwelsom fod asesiadau o alluedd meddyliol wedi'u strwythuro'n dda a'u bod yn cael eu cofnodi air am air fel arfer, er mwyn adlewyrchu llais y person. Roedd hyn yn cynnig tystiolaeth a rhesymeg glir ar gyfer penderfyniadau.

Fel rhan o'r dull gweithredu rhanbarthol, mae'r awdurdod lleol yn datblygu proses o roi Trefniadau Diogelu Rhyddid ar waith a fydd yn disodli'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Defnyddir matrices asesiad risg rhanbarthol i flaenoriaethu achosion a lliniaru unrhyw effaith negyddol ar unigolion. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Mae'r gwaith o drosglwyddo 'Teuluoedd yn Gyntaf' i'r gwasanaethau plant yn llwyddiannus wedi atgyfnerthu cymorth gwaith cymdeithasol a chymorth partneriaeth er mwyn sicrhau ymyrraeth gynnar ar y cam atgyfeirio. Mae'r Tîm Ffocws ar Deuluoedd yn parhau i ddarparu cymorth dwys i blant a theuluoedd, gyda chymorth ategol gan y Tîm Ymateb Cyflym. Mae gwaith yn parhau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan er mwyn datblygu llwybr llywio a rennir ar gyfer plant y mae angen Gofal Iechyd Parhaus arnynt.

Dangoswyd tystiolaeth o weithio'n agosach â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan drwy wella ac ehangu gofal amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol i leihau'r oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae'r tîm sy'n seiliedig ar ardaloedd sy'n gweithio ledled yr awdurdod lleol hefyd wedi lleihau oedi o'r fath; roedd hyn yn amlwg yn ystod arolygiad yr oedolion.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi anhawster comisiynu pecynnau gofal cartref. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar bobl sy'n byw gartref a'r rhai a oedd yn aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Yn ystod yr arolygiad o wasanaethau i oedolion, disgrifiodd darparwyr gofal a staff sut roedd yr awdurdod lleol yn ceisio mynd i'r afael â nifer y pecynnau gofal a oedd heb eu dyrannu, drwy weithio gyda darparwyr. Yn ogystal, clywsom am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda Choleg Gwent i gynyddu nifer y myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gwella'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt, er mwyn hyrwyddo llwybr gyrfa yn y sector gofal.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymgymryd â gwaith â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan er mwyn datblygu rhai mentrau newydd er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer pobl Torfaen. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwasanaeth therapi galwedigaethol a sefydlu rhai clinigau lleol er mwyn atal pobl rhag gorfod mynd i ysbytai.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad. Mae'r awdurdod lleol wedi adolygu ei bolisi tarfu ar leoliadau ac wedi'i ailfrandio'n bolisi sefydlogrwydd lleoliadau er mwyn cydnabod bod yr ymgais i atal unrhyw darfu yn cychwyn ar ddechrau lleoliad a chynnig ffocws gwahanol.

Partneriaethau

Wrth weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen eleni, gwelsom fod arferion gweithio mewn partneriaeth effeithiol ar waith i gomisiynu a sicrhau canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig, o safon i bobl. Yn yr arolygiad o wasanaethau oedolion, gwelsom fod meithrin cydberthnasau â phartneriaid yn hollbwysig i alluogi asiantaethau partner i gymryd rhan lawn yn yr agenda gwella. Soniodd darparwyr gofal cartref am feithrin dealltwriaeth dda o'u priod rolau a chyfrifoldebau, gan eu galluogi i weithio gyda'r awdurdod lleol i ddatblygu ffyrdd newydd o ddarparu gofal er mwyn cefnogi pobl i aros yn y gymuned.

Gwelsom sut roedd menter partneriaeth Gartref yn Gyntaf i atal derbyniadau i'r ysbyty wedi llwyddo i ostwng cyfraddau derbyn i'r ysbyty yn effeithiol. Roedd y cynllun yn golygu y gallai pobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn gynharach ac yn atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty yn y lle cyntaf a gorfod mynd nôl dro ar ôl tro. Roedd asesiadau'n dangos bod gofal a chymorth priodol yn cael eu rhoi er mwyn cyflawni canlyniadau personol.

Un datblygiad cadarnhaol oedd bod y Strategaeth Gofal Cartref yn ceisio gwella gwasanaethau mewnol a gwasanaethau asiantaethau allanol. Mae sawl elfen i'r strategaeth hon a fydd yn cynnwys cynyddu'r gwasanaeth mewnol o 10% i 14%. Yn ogystal, mae £500k wedi cael ei ddyrannu o'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi ffyrdd arloesol o leddfu rhywfaint o'r pwysau ym maes gofal cartref ymhlith yr awdurdodau lleol a'r sector

annibynnol. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn helpu'r trydydd sector i gael gafael ar Gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn sy'n byw yn y gymuned. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ar ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau oedolion hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Swyddfa Archwilio Cymru
AGIC
Estyn